


**Rhentu Doeth  
Cymru**

**Arweinlyfr Swyddogol:**



# Sut i wneud cais am drwydded asiant ar-lein

**Mehefin 2016**



# Canllaw Cyflym er mwyn gwneud cais ar-lein am drwydded asiant gyda Rhentu Doeth Cymru

Mae rhaid i berson unigol arwain y cais ar gyfer asiant.

Bydd yr unigolyn yn creu cyfrif trwy'r dudalen gair ar [www.rhentudoeth.llyw.cymru](http://www.rhentudoeth.llyw.cymru)

## Pan fydd yr unigolyn wedi creu cyfrif personol, gall fynd ati i greu Proffil Asiant.

Pan fydd wedi gwneud hyn, gall landlordiaid sy'n ychwanegu eu hasiantiaid at eu cofrestriad eu hunain ddod o hyd i'r asiant drwy chwilio. Gyda hyn, anfonir e-byst at yr asiant er mwyn cadarnhau ei gysylltiad â'r eiddo y mae'r landlord wedi ei enwi yng Nghymru.

## Pan fydd proffil asiant wedi ei chreu, gellir dechrau'r cais am drwydded. Gellir cwblhau hwn mewn unrhyw drefn a thros unrhyw gyfnod o amser. Mae'n cynnwys y camau canlynol:

- Ychwanegu a chysylltu'r holl staff sy'n ymwneud â gosod a rheoli â chais yr asiant
- Archebu lle ar gyfer staff ar hyfforddiant/uwchlwyddo tystiolaeth hyfforddi'r staff
- Uwchlwytho templed taenlen yn cynnwys holl eiddo y mae'r asiant yn eu rheoli yng Nghymru (yn cynnwys eiddo a maent yn eu rheoli fel asiantaeth 'gosod yn unig'.
- Talu ffi trwydded asiant ([cliciwch i weld y polisi ffioedd](#))
- Datgan bod yr asiant yn gymwys ac addas (neu uwchlwytho tystiolaeth i ddangos penderfyniad Rhentu Doeth Cymru).

## Pan fydd y cais wedi ei gwblhau, bydd angen i'r asiant ei gyflwyno ac aros am y penderfyniad. Gall hyn gymryd hyd at 8 wythnos.

Pan fydd Rhentu Doeth Cymru wedi dod i benderfyniad, bydd yn anfon e-bost ar yr asiant yn cynnwys y drwydded (mae hon yn ddogfen gyfreithiol y bydd angen ei darllen yn ofalus). Mae'r drwydded yn cynnwys amodau y bydd rhaid i'r asiant gydymffurfio â nhw yn ystod cyfnod 5 mlynedd y drwydded. Bydd yr asiant yn derbyn trwydded maint cerdyn credyd trwy'r post, sticer ffenestr ar gyfer unrhyw swyddfeydd sydd ganddynt a chaniatâd i ddefnyddio logo asiant trwyddedig Rhentu Doeth Cymru.

Bydd y drwydded ar gael trwy gyfrif yr asiant bob amser.

# Cyfarwyddiadau manwl ar gyfer gwneud cais am drwydded asiant

Dyma'r broses o greu **proffil asiant** a gwneud cais am drwydded asiant ar-lein:




Bydd angen i bwy bynnag fydd yn arwain y broses o wneud cais greu cyfrif personol ar wefan Rhentu Doeth Cymru wrth ddilyn y ddolen ganlynol:

<https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/security/login/?fdReturnURL=%2fcym%2fda-shboard%2f%3ffdSignup%3dtrue&fdSignIn=False&fdSignUp=True>

Pan fydd y cyfrif wedi ei greu a chyfarwyddiadau'r e-bost wedi eu dilyn er mwyn dod â'r cyfrif yn weithredol, bydd y defnyddiwr yn dod i'r dudalen ganlynol:

## Beth nesaf?

Dewiswch pa opsiwn sydd fwyaf perthnasol i chi. Os nad ydych yn siŵr, defnyddiwch ein holiadur rhyngweithiol. Os ydych chi'n meddwl eich bod yn Landlord, cliciwch **yma**. Os ydych yn meddwl eich bod yn landlord sydd angen trwydded, cliciwch **yma**. Os ydych yn meddwl y gallai fod angen trwydded asiant arnoch, cliciwch **yma**.

 <h3>Landlord</h3> <p>Cofrestrwch fel landlord, a datgan yr eiddo rhent domestig sydd gennych yng Nghymru. Ar ôl hyn, os oes angen i chi wneud cais am drwydded landlord gallwch wneud hynny, yn ogystal â chadw lle ar hyfforddiant Rhentu Doeth Cymru.</p> <p><b>DEWISWCH</b></p>	 <h3>Asiant</h3> <p>Os ydych yn gwneud gwaith gosod neu reoli ar ran landlord mewn eiddo yng Nghymru, defnyddiwch y ffurflen ar-lein hon i wneud cais am drwydded asiant.</p> <p>Fel rhan o'r cais am drwydded asiant gallwch gadw lle ar hyfforddiant Rhentu Doeth Cymru, ac os oes gennych gyflogeion sydd angen cael eu hyfforddi fel rhan o'ch cais am drwydded asiant gallwch eu gwahodd i gysylltu â'ch proffil ac yna trefnu hyfforddiant ar eu rhan.</p> <p><b>DEWISWCH</b></p>	 <h3>Trefnu Hyfforddiant</h3> <p>Os nad ydych yn cofrestru fel landlord, nac yn gwneud cais am drwydded, ond eich bod am gwblhau hyfforddiant (efallai ar gais cyflogai) gallwch drefnu hynny yma.</p> <p><b>DEWISWCH</b></p>
---	---	---

Ar y dudalen hon, bydd angen dewis "Asiant".

Y cam cyntaf yn y broses fydd greu "proffil asiant" a cyflwyno gwybodaeth am yr ymgeisydd (yn nodi pa fath o ymgeisydd ydyw e.e. Unigolyn, Corff Corfforaethol\*, Elusen, Ymddiriedolaeth neu Landlord Tai Preswyl Cymdeithasol).

\*Noder: Os yw person yn masnachu dan enw cwmni ond nid yw'n Gorff Corfforaethol (e.e. Cwmni Cyfyngedig, Partneriaeth Cyfrifoldebau Cyfyngedig, neu yn rhyw gorff arall wedi ei gofrestru â Thŷ'r Cwmniâu), ni allwn gyflwyno trwydded i enw'r cwmni gan nad yw'n gorff yn ôl y gyfraith. Felly, bydd rhaid cwblhau cais am drwydded i unigolion yn enw'r prif berson dros yr asiant, a chyflwynir y drwydded i'r person hwnnw. Fodd bynnag, gallwn dderbyn cyfenw'n unig gyda'r geiriau "yn masnachu fel" ar ei ôl e.e. Joe Bloggs (yn masnachu fel Bloggs and Brothers) os mai dyna yr hoffech ei weld ar y drwydded.

Yr ail gam yw creu Proffil yr Asiant er mwyn nodi pob swyddfa y mae'r asiant yn ei defnyddio yng Nghymru (bydd rhaid dewis un ar gyfer gohebiaeth, ac mewn achos Corff Corfforaethol, bydd rhaid nodi pa un yw Cyfeiriad Cofrestredig y Cwmni).

Y trydydd cam wrth greu'r proffil asiant yw 'gwahaodd defnyddiwr cysylltiedig' i'w cysylltu â'r proffil asiant. Mae'r llun-sgrin isod yn dangos beth fydd ar y dudalen hon.

1 2 3 4  
Manylion yr asiant Manylion defnyddiwr Gwybodaeth bellach Cwblhawyd

Cyfrifol am y cais  
Dyddiad Geni 01/01/001

## Gwahodd Pobl Gysylltiedig

Rhaid i bob cyflogai neu bennaeth sy'n gwneud gwaith gosod neu reoli ar gyfer yr asiant hwn mewn eiddo rhent yng Nghymru fod wedi'i gysylltu â'r proffil hwn. Achubwch ar y cyfle hwn i wahodd, drwy e-bost, pobl o'r fath i gofrestru a chysylltu â chi.

Os nad oes gennych unrhyw un arall sy'n gweithio i'r asiant hwn mewn eiddo rhent yng Nghymru, ewch ymlaen drwy glicio 'nesaf'.

Rhaid cwblhau'r parthau lle mae seren (\*).

### Gwahodd defnyddiwr i ymuno

Enw \*

E-bost \*

Eich rôl \*

Teitl swydd

A fydd y person hwn yn gyfrifol am weithgareddau gosod? \*

Na  Ie

A fydd y person hwn yn gyfrifol am weithgareddau rheoli? \*

Na  Ie

**YCHWANEGU**

Ychwanegwch unrhyw 'ddefnyddiwr cysylltiedig' yn y cam hwn. Bydd hyn yn cynnwys rhoi gwybodaeth holl staff yr asiant sy'n gwneud gwaith gosod a rheoli ar gyfer eiddo rhent yng Nghymru. Pan fydd yr wybodaeth hon wedi ei mewnbwnnu, byddant yn derbyn gwahoddiad dros e-bost i 'gofrestru/mewngofnodi' er mwyn cysylltu â phroffil yr asiant. **Mae rhaid iddynt wneud hyn.**

Pan fydd pob aelod o'ch staff wedi creu cyfrif defnyddiwr unigol ar y wefan, ac wedi cysylltu â'r asiant, gallwch uwchlwytho unrhyw dystysgrifau hyfforddi allanol y maent wedi eu derbyn, neu gellir cadw lle iddynt ar hyfforddiant /hyfforddiant ar-lein gan Rhentu Doeth Cymru. Hefyd, pan fydd eu cyfrifau unigol wedi eu cysylltu â chyfrif yr asiant, gall prif ddefnyddiwr y cais asiant uwchlwytho cofnodion hyfforddi'r staff ac archebu/talu am le ar hyfforddiant gan RhDC a.y.b.

Wedi ychwanegu unrhyw 'ddefnyddiwr cysylltiedig' y mae angen ei ychwanegu, bydd y defnyddiwr yn dod at ddiwedd y broses ac yn gweld y sgrin isod.

1 . . . 2 . . . 3

Manylion yr asiant      Gwybodaeth bellach      Cwblhawyd

Cyfrifol am y cais  
Dyddiad Geni                      01/01/001

## Rydych chi wedi creu proffil asiant gyda Rhentu Doeth Cymru.

Nawr mae angen gwneud cais am drwydded asiant drwy fynd i'ch dangosfwrdd isod a dechrau'r broses.

**DANGOSFWRDD**

**Wyddech chi?** Wedi cyrraedd y cam hwn yn y broses, gall landlordiaid sy'n cofrestru ddod o hyd i'r asiant drwy declyn chwilio a gall enwi'r asiant ar gyfer yr eiddo yng Nghymru y mae'n gwneud y gwaith gosod/rheoli ar ei gyfer. Fel asiant, byddwch yn derbyn e-byst yn gofyn i chi gadarnhau'r cysylltiad â'ch landlordiaid cleient yn swyddogol. **\*Mae rhaid i chi ddilyn y camau a nodir yn yr e-byst hyn, maen nhw'n bwysig iawn.\***

Pan fydd proffil asiant wedi ei greu, dylai'r defnyddiwr fynd i dudalen gartref yr asiant a chychwyn y broses o wneud cais ar gyfer trwydded asiant. Gellir gadael ac ailgydio yn y broses hon nes y bydd yr holl wybodaeth wedi ei rhoi (a'r ffi wedi ei [thalu](#)), yna, gellir cyflwyno'r cais i Rhentu Doeth Cymru.

Pan fydd y cais wedi ei gyflwyno, bydd Rhentu Doeth Cymru yn ei asesu ac yn cysylltu â'r asiant os oes unrhyw beth ar goll, ac yn penderfynu trwyddedu ai peidio o fewn 8 wythnos.

**Am ragor o wybodaeth neu gyngor, ewch i'n gwefan [www.rhentudoeth.llyw.cymru](http://www.rhentudoeth.llyw.cymru) neu cysylltwch â ni ar 03000 133344.**